# Croeso Gan y Llywydd



Braint yw cael fy ethol yn Lywydd ar Gymdeithas Amaethyddol Môn 2024. Mae'r Gymdeithas a'r Sioe'n bwysig iawn yn tŷ ni fel i lawer ohonoch chithau. 'Rwyf ynghlwm ậ'r adran wartheg godro ers hanner can mlynedd ac wedi gweld llawer o newidiadau o'r adeg ym Mona dan ganfas i'r cyfleusterau gwych sydd gennym heddiw, diolch i'n tadau gafodd y weledigaeth i brynu'r safle.
Braint oedd cael bod yn Gadeirydd y Cyngor am ddwy flynedd yn olynol ym 2011 a rhaid diolch i aelodau'r pwyllgor hwnnw am eu gwaith dros y blynyddoedd anodd diweddar. Mae hi'n braf gweld amryw o aelodau ifanc ar y Cyngor a gobeithio gallwn ddenu mwy atom i gymeryd yr awennau. Mae'r Cadeirydd presennol Dr Non Williams yn ferch ifanc sydd yn gwneud fy swydd i'n hawdd iawn ac yn cadw trefn ar bawb.
Mae gwreiddiau'r Sioe yn y 1700au gyda'r tir feddianwyr yn gweld gwerth ar hybu cynhyrchu bwyd a thalu 'premium' am ychydig o wahanol math o gynnyrch. Erbyn heddiw mae'r 'Primin' yn cynnal dros 1300 o gystadlaethau a'r Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth.
Rhaid diolch i'r tîm i gyd - yn wirfoddolwyr, stiwardiaid ac aelodau am eu hamser i sicrhau llwyddiant a datblygiad y Sioe.
Diolch yn arbennig i'r genod yn y Swyddfa dan ofal Cain am eu gwaith i gyd drwy'r flwyddyn.
Anrhydedd yw dymuno Sioe dda i bawb a gobeithio byddwch yn parhau i gefnogi'r Gymdeithas yn y dyfodol.

**Mr John V Jones**
**Llywydd Cymdeithas Amaethyddol Môn 2024**